# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 25 Tachwedd 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 306(v5)

**Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.**

**Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.**

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 5 90 Second Statements

(5 munud)

## 6 Cynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil Cynllun Dychwelyd Ernes a Lleihau Gwastraff

(30 munud)

**NDM7481 Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil a fyddai'n gwneud darpariaethau i gyflwyno cynllun dychwelyd ernes a lleihau gwastraff yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) sefydlu cynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd yng Nghymru, a fyddai'n golygu bod defnyddwyr yn talu ernes, yn ad-daladwy ar ôl dychwelyd y cynhwysydd;

b) lleihau nifer y poteli plastig a gwydr untro, yn ogystal â caniau dur ac alwminiwm;

c) ymateb i wastraff ailgylchadwy cynyddol, fel cyfarpar diogelu personol sy'n cael ei ddefnyddio yn y frwydr yn erbyn COVID-19, lle mae nifer cynyddol o eitemau'n cael eu taflu ac yn effeithio ar ein bywyd gwyllt a morol; a

d) cynyddu atebolrwydd drwy sefydlu dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i osod adroddiad blynyddol gerbron Senedd Cymru yn manylu ar bolisïau penodol yr ymgymerwyd â hwy i leihau'r gwastraff ailgylchadwy a gaiff ei daflu i ffwrdd a'r effaith y mae'r rhain wedi'i chael o ran gwella amgylchedd naturiol Cymru.

**Cefnogwyr**
Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

## 7 Dadl y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

(60 munud)

**NDM7487** **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, a osodwyd ar 21 Medi 2020.

2. Yn nodi, yn unol ag Adran 3 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, fod cyfnod ystyried 60 diwrnod y Senedd wedi dechrau ar y diwrnod y gosodwyd drafft y Fframwaith yn y Senedd.

3. Yn nodi, yn unol ag Adran 3 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, fod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw benderfyniad a basiwyd gan y Senedd ac unrhyw argymhelliad a wnaed gan un o bwyllgorau'r Senedd mewn perthynas â'r drafft yn ystod y cyfnod hwnnw o 60 diwrnod.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

**Dogfennau ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Ymateb gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Llythyr gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** **Sian Gwenllian (Arfon)**

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu o ran y model pedair rhanbarth diwygiedig yn Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040:

a) ei fod wedi cael ei ysbrydoli gan agenda Geidwadol, unoliaethol sy'n seiliedig ar gytundebau dinas a thwf Llywodraeth y DU;

b) y byddai'n gyrru hollt drwy Gymru, gan rannu gogledd ein gwlad o'r de ac ni fyddai'n gwneud fawr ddim yn rhagweithiol i wella cysylltedd rhwng y gogledd a'r de; ac

c) y byddai'n esgeuluso rhai o'r rhannau hynny o Gymru y mae angen eu hadfywio a'u datblygu fwyaf, sef yr arfordir gorllewinol a chymoedd y de.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddisodli'r model pedwar rhanbarth a gynigir yn Cymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040 gan, yn lle hynny, gael map rhanbarthol amgen o Gymru sy'n canolbwyntio ar wneud Cymru'n genedl gysylltiedig, cynaliadwy, ffyniannus a hunangynhaliol ym mhob ystyr.

Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040

**Gwelliant 2** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Dr Neil Harris o Brifysgol Caerdydd, mewn tystiolaeth i Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd, wedi crynhoi'r dull sy'n sail i Cymru’r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 fel un sy'n seiliedig ar dwf sy'n canolbwyntio ar ardaloedd trefol a sefydlogrwydd mewn mannau eraill.

Yn credu o ran y dull sy'n sail i Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040:

a) ei fod mewn perygl o sefydlu'r methiant i ddosbarthu cyfoeth, twf a datblygiad mewn modd cyfartal ledled Cymru fel nodwedd barhaol o lywodraethu Cymru yn y cynllun hirdymor hwn; a

b) y bydd yn arwain at orddatblygu yn yr ardaloedd sydd eisoes wedi'u blaenoriaethu fel lleoliadau a ffefrir ar gyfer datblygiadau preswyl sylweddol a datblygiadau sylweddol eraill, heb wneud fawr ddim i fynd i'r afael â'r angen am

ddatblygu cynaliadwy mewn meysydd eraill gan gynnwys yr angen am dai cymdeithasol a fforddiadwy i gwrdd â'r argyfwng tai.

Yn credu bod yn rhaid i'r system gynllunio yng Nghymru adlewyrchu'r angen am ddatblygiad addas yn y mannau cywir yn ôl angen lleol; rhoi mwy o lais i gymunedau mewn datblygiadau yn eu hardaloedd a bod yn rhaid i'r system gynllunio ganiatáu cynllunio cyfannol ar y lefel briodol, ond yn credu ei bod yn debygol y bydd trosglwyddo pŵer ac atebolrwydd dros gynllunio o awdurdodau lleol i gyd-bwyllgorau corfforaethol drwy gynlluniau datblygu strategol yn cyfyngu ymhellach ar y llais lleol mewn prosesau cynllunio.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddisodli'r dull sy'n sail i Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 ar hyn o bryd gan sefydlu dull amgen sy'n canolbwyntio ar ddosbarthu cyfoeth, pŵer a buddsoddiad yn gyfartal ledled Cymru drwy dargedu ymyrraeth a thwf yn yr ardaloedd mwyaf anghenus.

Cyflwyniad ysgrifenedig gan Neil Harris cyn sesiwn dystiolaeth ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig - Hydref 2019 (Saesneg yn unig)

## 8 Dadl y Ceidwadwyr - Effaith COVID-19 ar Wasanaethau Iechyd

(60 munud)

**NDM7489** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi adroddiad BBC Wales Investigates a ddangosodd bod 10 gwaith yn fwy o gleifion yn aros am bob triniaeth yn GIG Cymru o gymharu â mis Medi 2019.

2. Yn nodi ymhellach y rhybudd gan arbenigwyr ac elusennau canser blaenllaw y gallai 2,000 o bobl farw oherwydd oedi sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn GIG Cymru.

3. Yn cydnabod gwaith caled, ymroddiad ac ymrwymiad staff yn y sector gofal iechyd sy'n cefnogi cleifion nid yn unig â'r coronafeirws ond ag amrywiaeth o gyflyrau.

4. Yn gresynu at y ffaith bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi amcangyfrif y byddai'n cymryd tymor seneddol llawn i ailddechrau

gwasanaethau arferol ac y byddai'n ffôl cael cynllun ar waith i fynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn rhestrau aros.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) rhoi hwb i'r defnydd o ysbytai sy'n rhydd o COVID-19 ar unwaith, fel yr argymhellwyd gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon a'r  Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys;

b) cynnal adolygiad brys o sut mae cleifion ysbyty yng Nghymru yn cael eu rhyddhau yn ystod y pandemig a gweithredu'r canfyddiadau hynny i fynd i'r afael â thagfeydd mewn ysbytai, fel yr argymhellwyd gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr;

c) gwella ei threfn brofi'n sylweddol er mwyn cynyddu capasiti a sicrhau bod COVID-19 yn cael ei ynysu a'i gadw allan o ysbytai Cymru;

d) cyflwyno cynllun adfer canser, fel y gwelir mewn rhannau eraill o'r DU, a chynyddu'r buddsoddiad yn y gwaith o gyflwyno canolfannau diagnostig cyflym ledled Cymru;

e) gweithredu ymgyrch genedlaethol i sicrhau bod pobl sy'n amau bod ganddynt ganser, neu y mae angen iddynt fynd i'r ysbyty mewn argyfwng, yn parhau i wneud hynny.

[Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Senedd y DU gan Goleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr a Choleg Brenhinol Meddygaeth Frys - 16 Mehefin 2020 (Saesneg yn unig)]

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod yr ystadegau ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd ar 19 Tachwedd yn dangos cynnydd o 11 y cant yng nghyfanswm y niferoedd sy'n aros am driniaeth rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2020, ac mai nifer yr arosiadau dros y targed cenedlaethol o 36 wythnos sydd naw gwaith yn fwy, tuedd sydd i'w gweld ym mhob rhan o'r DU.

[StatsCymru]

**Gwelliant 2** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu y bydd Cymru, y DU, a'r byd yn byw gydag effeithiau COVID-19 am flynyddoedd lawer.

Yn nodi bod cynlluniau'r GIG, tra mae COVID yn dal i fod yn ein cymuned, yn canolbwyntio ar gydbwyso darparu gwasanaethau COVID a gwasanaethau eraill yn ddiogel.

**Gwelliant 3** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu is-bwynt 5(a) a rhoi yn ei le:

gweithio gyda chlinigwyr lleol i ddarparu modelau cyflawni sy'n gwneud y mwyaf o'r holl adnoddau i ddarparu gofal diogel o safon ar gyfer llwybrau COVID a llwybrau eraill ar gyfer cymunedau lleol.

**Gwelliant 4** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu is-bwynt 5(d) a rhoi yn ei le:

parhau i weithio gyda'r rhwydwaith canser a'r GIG i sicrhau y gall gwasanaethau canser ateb galwadau newydd a'r galw presennol, a chytuno sut i fuddsoddi yn y dyfodol i wireddu'r ymrwymiad y cytunwyd arno ar gyfer profion diagnostig cyflym.

**Gwelliant 5** Rebecca Evans (Gwyr)

Yn is-bwynt 5(e) dileu "gweithredu ymgyrch" a rhoi yn ei le "parhau â'n hymgyrch".

**Gwelliant 6** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu is-bwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 5:

'cynnal adolygiad o berfformiad yn erbyn targedau amseroedd aros dros y degawd diwethaf i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu am reoli rhestrau aros;

ystyried defnyddio'r ysbytai Nightingale lle y bo'n bosibl i ddarparu capasiti ychwanegol i gleifion sy'n gwella yn dilyn llawdriniaeth er mwyn helpu i gynyddu llif drwy'r system.'

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7488** David Rees (Aberafan)

Gwasanaethau canser: cynllun adfer ar ôl COVID-19.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2020

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 18/11/2020 i'w hateb ar 25/11/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

1 OQ55901

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid ar draws Llywodraeth Cymru yn sgil cyhoeddiad y Canghellor ynghylch £600 miliwn o symiau canlyniadol ychwanegol gan Lywodraeth y DU?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

2 OQ55934

**(e)**

A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw adolygiadau o hyfywedd ei buddsoddiadau presennol yn sgil effaith y pandemig COVID-19?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

3 OQ55933

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i greu trethi newydd cyn diwedd y Senedd hon?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

4 OQ55926

**(e)**

Pa gyllid ychwanegol y bydd y Gweinidog yn ei ddyrannu yn y gyllideb i gefnogi ardal Pontypridd yn sgil COVID-19?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

5 OQ55928

**(e)**

Pa ddyraniadau cyllidebol ychwanegol y bydd y Gweinidog yn eu darparu i gefnogi Trafnidiaeth Cymru gan ei bod bellach wedi cymryd rheolaeth dros fasnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau?

**Hefin David** *Caerffili*

6 OQ55938

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwyliau treth trafodion tir sydd ar waith yng Nghymru tan 31 Mawrth 2021?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

**7** OQ55929

**(e)**

Pa ystyriaeth y bydd y Gweinidog yn ei rhoi i hyrwyddo datblygiad economaidd trefi ym Mlaenau'r Cymoedd wrth ddyrannu cyllid i bortffolio'r economi, trafnidiaeth a gogledd Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**8** OQ55914

**(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi strategol ym Mhreseli Sir Benfro?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**9** OQ55909

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gostyngiad yng nghyfanswm y dyraniad refeniw a chyfalaf ar gyfer portffolio'r amgylchedd, ynni a materion gwledig yn yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2020-21?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**10** OQ55937

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ynghylch sefyllfa ariannol Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe?

**David Rees** *Aberafan*

**11** OQ55931

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion y Trysorlys o fewn Llywodraeth y DU ynghylch manylion y gronfa ffyniant gyffredin?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

**12** OQ55935

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o werth am arian trosi'r A465 o Ddowlais Top i Hirwaun yn sgil amcanestyniadau bod y gost wedi cynyddu'n sylweddol?

# Y Gweinidog Addysg

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*
1 OQ55924

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynlluniau ar gyfer myfyrwyr yn dychwelyd i brifysgolion Cymru yn y flwyddyn newydd?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*
2 OQ55916

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer athrawon cyflenwi?

**David Melding** *Canol De Cymru*
3 OQ55920

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau presenoldeb mewn ysgolion arbennig yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*
4 OQ55908

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ysgolion yn cefnogi disgyblion ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*
5 OQ55941

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r cwricwlwm newydd?

**Leanne Wood** *Rhondda*
6 OQ55940

**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i atal y coronafeirws rhag lledaenu mewn ysgolion yn asymptomatig er mwyn amddiffyn athrawon a disgyblion?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*
7 OQ55923

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith y pandemig ar weithredu'r cwricwlwm newydd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*
8 OQ55906

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y pandemig COVID-19 ar gyllidebau ysgolion?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ55930

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella ysgolion yng Ngorllewin De Cymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10 OQ55922

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau diogel o ran COVID-19 sy'n cael eu cymryd mewn ysgolion uwchradd?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

11 OQ55927

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud ynghylch i ba raddau y gallai myfyrwyr fod wedi syrthio ar ei hôl hi yn ystod cyfyngiadau symud sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

12 OQ55905

**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella safonau addysg yn Sir Benfro drwy'r pandemig COVID-19?

## Comisiwn y Senedd

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

1 OQ55925

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am faint o wyliau blynyddol a gronnwyd gan staff a'r effaith a gaiff hyn ar ei gyllid?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

2 OQ55936

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am gylchrediad aer yn y Senedd ac adeiladau Tŷ Hywel?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

3 OQ55913

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am ei ymgysylltiad presennol â phlant a phobl ifanc yng Nghymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

4 OQ55921

**(e)**

Pa fesurau sydd ar waith i hyrwyddo rhith-fynediad at drafodion y Senedd gan y cyhoedd?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ55904

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gefnogaeth ar gyfer gwaith Senedd Ieuenctid Cymru?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

6 OQ55942

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am unrhyw gynlluniau i newid cylch etholiadol y Senedd?